

Pwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol

CYLCH GORCHWYL

1. Nodau

Pwrpas y Pwyllgor Cyswllt yw rhoi strwythur a ffocws i'r berthynas rhwng yr Awdurdod Lleol, y Bwrdd Iechyd a'r Trydydd Sector yn Ynys Môn. Bydd y Pwyllgor yn:

- 1.1 Datblygu, gweithredu, monitro ac adolygu'r Compact;
- 1.2 Cynhyrchu Cynllun Gweithredu ar gyfer y Compact sy'n nodi amcanion a thargedau;
- 1.3 Monitro ac adolygu'r Cynllun Gweithredu bob blwyddyn;
- 1.4 Sicrhau bod y Codau Ymarfer a nodir yn y Compact yn cael eu datblygu;
- 1.5 Sicrhau bod y Codau Ymarfer yn cael eu gweithredu a monitro eu heffeithiolrwydd;
- 1.6 Darparu fforwm ar gyfer ymchwilio i faterion o bryder cyd-rhwng y naill a'r llall;
- 1.7 Adrodd ar gynnydd i Bwyllgor Gwaith Cyngor Sir Ynys Môn, i'r Trydydd sector trwy Medrwn Môn ac i'r Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus;
- 1.8 Adrodd i'r cyrff statudol lleol sy'n atebol, ac i Medrwn Môn trwy gyflwyno adroddiad blynyddol ar gynnydd.

2. Aelodaeth

CSYM

5

Bwrdd Iechyd

1

Trydydd Sector

5 o gynrychiolwyr etholedig

Sylwedydd

Cynrychiolydd Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru

Dirprwyon

Caniateir dirprwyon gyda chytundeb y Cadeirydd

3. Cworwm

Y cworwm yw o leiaf dau gynrychiolydd o'r Cyngor Sir, a dau o'r Sector Gwirfoddol.

Os nad oes cworwm ar gyfer cyfarfod, caiff ei ail-gynnal cyn pen 28 diwrnod. Oni fydd cworwm yn y cyfarfod hwnnw 'chwaith byddai'r cyfarfod yn mynd yn ei flaen fel pe bai ganddo gworwm.

4. Datganiadau o Ddiddordeb

Rhaid i bob aelod o'r Pwyllgor ddatgan unrhyw ddiddordeb sy'n ymwneud ag eitemau penodol ar y rhaglen a gadael y cyfarfod pan fo'r eitemau hynny'n cael sylw.

5. Cadeiryddiaeth ac Ysgrifenyddiaeth

Bydd Cadeiryddiaeth yn newid bob blwyddyn. Bydd un aelod o'r tri chorff a gynrychiolir ar y Pwyllgor yn cadeirio yn eu tro.

Gwasanaethir y Pwyllgor ar y cyd gan swyddogion Medrwn Môn, y Bwrdd Iechyd a CSYM. Medrwn Môn fydd yn gyfrifol am wasanaethu a chefnogi cynrychiolwyr y trydydd sector.

6. Amllder Cyfarfodydd

Bydd y Pwyllgor yn penderfynu amllder ei gyfarfodydd ond fel arfer bydd y Grŵp yn cwrdd o leiaf 3 gwaith bob blwyddyn.

7. Cyfethol

Gall y Pwyllgor gyfethol aelodau fel y gwêl yn ddoeth. Rhaid cael cytundeb llawn aelodau'r Pwyllgor ar gyfer aelodau cyfetholedig o'r fath.

8. Adolygiad

Adolygir Cylch Gorchwyl ac aelodaeth y Pwyllgor bob blwyddyn neu'n amlach os bydd angen.

ATODIAD

Rhestr o Aelodau

CSYM

Cynghorwyr Kenneth P Hughes,
Gwilym O Jones, R Meirion Jones, Llinos Medi,
Alun Mummery

Trydydd Sector

Mr Andrew M Hughes (Medrwn Môn)
Mr Islwyn Humphreys (Samariaid)
Mr Aled Evans (Age Cymru – Gwynedd a Môn)
Sedd Wag x 2

BIPBC

Mr Iwan Jones